# Maniffesto Amgueddfeydd

## Grym amgueddfeydd

Mae amgueddfeydd ledled y Deyrnas Unedig yn chwarae rhan hanfodol wrth ddod â’n cymunedau ynghyd, gan ein cefnogi wrth i ni geisio deall ein gorffennol a’n helpu i lunio dyfodol tecach a gwyrddach.

Mae dros 2,500 o amgueddfeydd yn y Deyrnas Unedig, gyda chasgliadau eithriadol o amrywiol – o hanes cymdeithasol i gelfyddyd gain ac o wyddoniaeth a diwydiant i astudiaethau natur.

Mae amgueddfeydd yn rhan hanfodol o wead cymdeithas. Mae’r cyhoedd yn hoff ohonynt ac yn ymddiried ynddynt ac maent yn rhan allweddol o’n seilwaith diwylliannol a chymdeithasol. Yn ogystal, mae amgueddfeydd wrth galon bywyd dinesig, gan helpu i wneud ein pentrefi, ein trefi a’n dinasoedd yn lleoedd bywiog a chynhwysol i fyw a gweithio ynddynt ac i ymweld â nhw.

Gall amgueddfeydd helpu i ddenu twristiaid a sbarduno gweithgarwch economaidd yn ogystal â rhoi ymdeimlad o falchder lleol i gymunedau. Hefyd, gallant gael effaith drawsnewidiol ar bobl. Gallant wella iechyd a lles ac maent yn fannau lle gall y cyhoedd brofi amrediad eang o ddiwylliannau a syniadau.

Mae amgueddfeydd wrthi’n cydweithio â chymunedau i ddefnyddio'u casgliadau a’u gwybodaeth i’n helpu i drafod a deall y materion mawr sy’n ein hwynebu, fel anghydraddoldeb, newidiadau technolegol a'r argyfwng hinsawdd.

- Mae amgueddfeydd yn chwarae rhan allweddol yn cefnogi economïau cenedlaethol a lleol ac yn ysgogi twristiaeth a’r economi ymwelwyr.
- Mae amgueddfeydd yn ein helpu i fynd i'r afael â materion cyfoes a materion anodd o'r gorffennol fel gwrth-hiliaeth a hanes yr ymerodraeth Brydeinig.
- Mae amgueddfeydd yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau ac yn defnyddio'u casgliadau i archwilio cynaliadwyedd a chyfiawnder hinsawdd ac i gyfrannu at y gwaith o gyrraedd sefyllfa sero net.

- Mae amgueddfeydd yn dwyn ynghyd amrywiaeth o artistiaid, pobl greadigol a gweithwyr llawrydd a gallant gefnogi rhwydweithiau ym meysydd creadigrwydd, ymchwil ac arloesi.

- Gall amgueddfeydd ddefnyddio'u casgliadau i gefnogi dysgu ac ymgysylltu a gallant feithrin y genhedlaeth nesaf i ymroi i'r gwaith o lunio dyfodol cymdeithas.

Fodd bynnag, mae ein hamgueddfeydd yn wynebu nifer o heriau difrifol ac mae arnynt angen cymorth a buddsoddiad er mwyn gwasanaethu ein cymunedau. Mewn rhai achosion, mae degawdau o doriadau ariannol wedi rhoi amgueddfeydd mewn sefyllfa fregus lle mae'r dirywiad yn cael ei reoli ac mai lleihau gwasanaethau a chau yw'r unig opsiynau.

**Mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd yn galw ar i bawb gael yr hawl i ddefnyddio amgueddfeydd ac am fuddsoddiad cyhoeddus newydd mewn amgueddfeydd ledled y Deyrnas Unedig.**

- **Mynediad:** dylai pawb gael yr hawl i ymwneud ag amgueddfeydd a chymryd rhan ynddynt a chael elwa ar wasanaeth amgueddfa o safon uchel yn agos at y man lle maent yn byw.

- **Buddsoddiad cyhoeddus:** mae angen buddsoddiad cyhoeddus strategol ar frys ar amgueddfeydd ledled y Deyrnas Unedig er mwyn gofalu am gasgliadau ac adeiladau, a chefnogi rhaglenni dysgu, ymgysylltu â'r gymuned, ac iechyd a llesiant.

- **Amgueddfeydd lleol:** mae amgueddfeydd lleol yn cynnig profiadau trawsnewidiol a diddorol gan gydweithio â'u cymunedau ac mae arnynt angen buddsoddiad a chymorth gan eu hawdurdodau lleol i wneud hynny. Mae hyn yn golygu setliad ariannu teg, hirdymor, ar gyfer llywodraeth leol fel y gall awdurdodau lleol gefnogi eu hamgueddfeydd a buddsoddi ynddynt. Er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd awdurdodau lleol yn gwerthu asedau diwylliannol i osgoi hysbysiad adran 114, dylid cyfarwyddo comisiynwyr i ddiogelu asedau diwylliannol, yn cynnwys casgliadau ac adeiladau amgueddfeydd.

- **Cyfrifoldeb amgylcheddol:** mae angen cyllid penodedig ar amgueddfeydd i sicrhau bod eu hadeiladau a'u casgliadau'n gynaliadwy ac fel y gallant barhau i

helpu cymunedau i fod yn fwy cynaliadwy a gweithredu dros gyfiawnder hinsawdd.

- **Seilwaith:** mae angen cefnogaeth barhaus ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio brys; dylid cadw cronfa MEND a'i hanelu at gefnogi adeiladau cynaliadwy, a dylai llywodraeth y DU gydweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau bod cyllid cyfwerth ar gael i amgueddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

- **Digidol:** yn ystod y pandemig, newidiodd ffordd amgueddfeydd o weithio ac mae angen cyllid penodedig fel y gall amgueddfeydd gynyddu eu gallu a'u hymgysylltiad digidol er mwyn parhau i fod yn hygyrch, yn berthnasol ac yn arloesol.

- **Rhyddhad Treth Arddangosfeydd:** mae'r Rhyddhad Treth Arddangosfeydd ar gyfer Amgueddfeydd ac Orielau wedi llwyddo i helpu amgueddfeydd ledled y Deyrnas Unedig i greu arddangosfeydd ac arddangosiadau newydd arloesol. Dylid gwneud y rhyddhad treth hwn yn barhaol.

- **Mynediad am ddim i amgueddfeydd cenedlaethol:** mae hwn wedi bod yn llwyddiant mawr ym maes polisi diwylliannol ac mae iddo lawer iawn o fanteision diwylliannol, addysgol ac economaidd. Dylid parhau ag ef.

- **Dychwelyd i darddiad a deall gwaddol yr ymerodraeth a chaethwasiaeth:** dylid annog a chefnogi amgueddfeydd i feithrin perthnasoedd teg â chymunedau tarddiad a chymunedau lleol er mwyn archwilio hanes ac effaith yr ymerodraeth Brydeinig; dylai unrhyw ddeddfwriaeth sy'n atal dychwelyd eitemau o amguedduеddfeydd cenedlaethol i'w tarddiad gael ei diddymu neu ei diwygio.

- **Tegwch o ran tâl a chydnabyddiaeth:** mae cyflogau isel yn rhemp mewn amgueddfeydd; dylai amgueddfeydd a chyllidwyr gydnabod gwaith caled ac ymroddiad pawb sy'n gweithio mewn amgueddfeydd a gyda nhw a dylent weithredu'r Ymchwil ac Argymhellion ym maes Cyflogau a gyhoeddwyd gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd.